Ysbryd arloesi blynyddoedd prawf S4C
1981 – 1985

[SLEID]

Yn yr amryfal deyrgedau a draddodwyd i'r diweddar Owen Edwards ar ddiwedd yr haf y llynedd, ynganwyd un gair yn fwy nag unrhyw un arall wrth iddynt gloriannu cyfraniad Owen i ddyddiau cynnar S4C ac yn eu hatgofion o'r cyfnod hwnnw yn gyffredinol - y gair hwnnw oedd *arbrawf*. Yn eu teyrngedau 'roedd cyfoedion a chyd-weithwyr Owen Edwards yn disgrifio sut y llwyddodd i ddarparu credinedd i'r fenter newydd, nad oedd yn fwy nag arbrawf tair blynedd, a sut y llwyddodd i lywio'r sianel ifanc trwy fôr garw y cyfnod hwnnw i sefydlu sianel y croesawodd pobl Cymru, i ddechrau beth bynnag, yn gynnes ar eu haelwydydd. Bwriadaf felly yn ystod yr chwarter-awr neu ugain munud nesaf i ddadansoddi blynyddoedd cynnar S4C gan ystyried sut yr oedd y sianel yn arbrawf yng nghyd-destun y tirlun darlledu Prydeinig a Chymreig gan holi a esgorodd y cyfnod prawf a roddwyd i'r sianel ar ysbryd o arbrofi ac arloesi yn ei gweithgareddau wrth i'r Awdurdod, y swyddogion a'r staff geisio sefydlu sianel na ellid ei diddymu o'r tirlun darlledu wedi adolygiad llywodraethol ym 1985.

Ofer fyddai i mi, yn y cwmni hwn, olrhain pam y sefydlwyd y sianel a'r gweithredoedd a'i sicrhaodd. Ond gobeithio y gwnewch chi faddau i mi am eiliad wrth i mi groniclo gwreiddiau y cysyniad o gyfnod prawf a pham y'i gosodwyd ar y sianel yn y lle cyntaf. Wedi cyhoeddiad Gwynfor Evans y byddai'n ymprydio hyd farwolaeth pa na bai'r llywodraeth Geidwadol yn dychwelyd at ei haddewid gwreiddiol, a gaed yn eu maniffesto etholiadol, o gyflwyno'r bedwaredd sianel yng Nghymru fel cartref i raglenni Cymraeg, rhoddwyd pwysau aruthrol ar y llywodraeth i

ddarganfod ateb a fyddai'n plesio Gwynfor ynghyd ag achub unrhyw embaras i'r llywodraeth. Cynyddu ymhellach y gwaneth y pwysau hwnnw wedi i Gwynfor wrthod y cynigion a'r consesiynau gwreiddiol a roddwyd ger ei fron er mwyn atal ei ympryd – ac fe ddaeth yn glir bod angen arweiniad ar y llywodraeth. Fe ddaeth yr arweiniad hwnnw ar ffurf y 'tri gwr doeth' - Syr Goronwy Daniel, yr Arglwydd Cledwyn o Benrhos a Gwilym O. Williams, a ddanfonwyd gan Lys yr Eisteddfod i ymweld â'r Ysgrifennydd Cartref, a'i berswadio i ailystyried a chyflwyno sianel ar wahan i'r Gymraeg. Un o'r awgrymiadau a wnaed yn y cyfarfod hwnnw ar y 10fed o Fedi 1980 oedd cynnig a leisiwyd gan yr Arglwydd Cledwyn y gallai'r Llywodraeth sefydlu sianel Gymraeg ar wahan am gyfnod prawf o ddwy flynedd, gyda'r dealltwriaeth y gellid dychwelyd at gynllun dwy-sianel y llywodraeth pe bai'r sianel yn methu. Apeliodd y cyfnod prawf hwn at yr Ysgrifennydd Cartref, er nad oedd hynny'n amlwg ar y pryd i'r tri gwr doeth wrth iddynt adael y cyfarfod.

Ond nid dyma'r tro cyntaf i'r egwyddor o gyfnod prawf gael ei grybwyll. Roedd yn rhan o'r consesiwn cyntaf a gynigwyd i Gwynfor Evans, y gellid treialu cynlluniau'r llywodraeth am gyfnod o flwyddyn, gyda'r dealltwriaeth y gellid sefydlu sianel Gymraeg pe bai'r egwyddor o ddosbarthu rhaglenni Cymraeg rhwng BBC 2 a'r Bedwaredd sianel yn methu. Gwrthodwyd y cynnig hwn gan Gwynfor, gan ei fod yn argyhoeddedig mai amhosibl fyddai addasu patrwm darlledu wedi iddo gael ei sefydlu, boed yna gyfnod prawf ai peidio. Gellid dadlau hefyd y bu'r cysyniad o ddosbarthu rhaglenni Cymraeg ar draws dwy sianel ar brawf ers yr 1950au, ac y profwyd ei fethiant eisoes. Bu'r cysyniad o gyfnod prawf hefyd yn destun i lythyr a ddanfonwyd gan Leopold Kohr, yr economegydd a'r darlithydd gwleidyddiaeth

amlwg, at y Times ar yr ugeinfed o Awst 1980, oddeutu tair wythnos cyn i'r tri gwr doeth ymweld â Willie Whitelaw. Yn y llythyr hwnnw fe nododd:

[sleid]

… may I suggest a compromise which I know would be acceptable to Gwynfor Evans, and requiring only a minute shift, should be acceptable also to the Government. Mr Whitelaw has already made a step in this direction by expressing willingness to revert to the Government's original proposal for a Welsh-language channel if his new policy should prove unsatisfactory after a trial period of a year or so. Gwynfor Evans, on his part, has expressed willingness to abandon his fourth channel campaign should the experiment, after a similar trial period, fail to fulfil Welsh expectations.

With both parties having made their previous absolute positions conditional and negotiable, the gap between them has shrunk to the question of what should be put to the trial first . . .

Leopold Kohr, 'Welsh Television', *The Times,* 20 Awst 1980.

Roedd y bwlch rhwng y ddwy ochr wedi culhau, ac roedd y cyfaddawd yn dderbyniol i'r llywodraeth, felly ar yr ail ar bymtheg o Fedi 1980 cyhoeddodd y llywodraeth ei ail-dro-pedol ac fe awdurdodwyd sianel ar wahan i raglenni teledu Cymraeg. Pan gyhoeddwyd y Ddeddf Ddarlledu ym 1981, roedd y cyfnod prawf wedi ei ymestyn o'r ddwy-flynedd a gynigwyd gan yr Arglwydd Cledwyn, i dair blynedd er mwyn rhoi'r cyfle gorau a chwarae teg i'r sianel newydd. Sefydlwyd Sianel 4 Cymru i ddechrau felly fel arbrawf tair blynedd er mwyn gweld pa un oedd y ddamcaniaeth orau ar gyfer darlledu rhaglenni Cymraeg – eu darlledu ar un sianel neu eu dosbarthu ar draws amserlen dwy sianel – a pha batrwm oedd fwyaf derbyniol i gynulleidfaoedd teledu Cymru, yn Gymry Cymraeg a di-Gymraeg.

Ond nid cyfnod prawf y sianel yw'r unig elfen o'r sianel a ellid ei ddisgrifio fel arbrawf. Mae nifer o elfennau o hanes cynnar S4C a ellid eu hystyried yn arbrofol, arloesol neu'n unigryw ar gyfer y cyfnod hwn yn hanes darlledu. Un o'r elfennau hyn yw cyfansoddiad y sianel ei hun, a hynny gan fod disgwyl i'r sianel greu gwasanaeth unedig ac atyniadol gyda rhaglenni o amryfal ffynonellau. Ar ddechrau'r 1980au, roedd darlledwyr yn darlledu rhaglenni a gynhrychwyd gan eu staff eu hunain, ond byddai S4C, ynghyd â Channel 4 yn newid yn gyfan-gwbl y tirlun darlledu gan gyflwyno'r model darlledwr-gyhoeddwr i Brydain. Roedd y model hwn yn creu lle i leisiau newydd ar ein sgriniau teledu – ond mewn gwirionedd mae cyfraniad S4C at ddatblygiad y model cyfarwydd hwnnw o ddarlledu yn cael ei anwybyddu gan academyddion a sylwebwyr. Ac mewn gwirionedd gwthiodd S4C y model darlledwr-gyhoeddwr ymhellach na Channel 4. Roedd Channel 4 yn comisiynu rhaglenni gan ddwy ffynhonell wahanol – cynhyrchwyr annibynnol a hefyd cwmniau rhwydwaith ITV. Yng Nghymru ar y llaw arall yr oedd S4C yn derbyn rhaglenni Cymraeg gan dair ffynhonell, y to newydd o gynhyrchwyr annibynnol a oedd yn datblygu yng Nghymru, HTV ac yn wahanol i Channel 4, gan y darlledwr cyhoeddus – y BBC. Nid oedd unrhyw ddarlledwr cyn hynny, nac wedyn, wedi ceisio mynd ati i lunio gwasanaeth cynhwysfawr ac unedig o amrywiaeth mor eang o ffynonellau. Gellid dadlau hyd yn oed fod S4C yn ceisio creu gwasanaeth, nid o dair ffynhonell wahanol, ond o bedair os ydych yn ystyried y rhaglenni Saesneg a ddaeth o Channel 4. Wedi i swyddogion y sianel wrthod cynlluniau gwreiddiol y llywodraeth a gynigiai mai'r gwasnaeth Cymraeg fyddai'n optio mewn a mas o'r gwasaneth Saesneg, sefydlwyd ethos o geisio ail-drefnu rhaglenni Channel 4 o amgylch y gwasanaeth Cymraeg, gyda staff S4C yn dethol, gyda'u dealltwriaeth o'r gynulleidfa Gymraeg, beth ddylid ei

ddarlledu, a beth dylid ei hepgor o amserlen Channel 4, gan ddewis y rhaglenni a fyddai'n gweddu i ethos boblogaidd y gwasanaeth Cymraeg. Roedd patrwm darlledu S4C felly yn gwbl unigryw ac yn sialens aruthrol ar gyfer y staff amserlennu gan nad oedd unrhyw batrwm y gellid ei fabwysiadu, gan ddangos ysbryd arbrofol a gwrthod chwarae'n saff y dyddiau cynnar hynny wrth iddynt wrthod yr ateb swyddogol a hawdd er mwyn mynd ati i greu o'r amryfal ffynhonellau wasanaeth synhwyrol ond cymhleth a oedd yn gweddu i'r gynulleidfa Gymreig.

Ond nid yr amserlen oedd yr unig elfen arbrofol a geid i'r sianel. Oherwydd bod cyn lleied o amser, cwta ddeunaw mis, i greu gwasnaeth y gellid ei lansio, a chwta dair blynedd wedyn i ymsefydu a phlannu ei hun yng nghalonnau a phatrymau gwylio y gynulleidfa a pherswadio'r llywodraeth o'i gwerth, roedd y perthnasau y bu'n rhaid iddi sianel eu ffurfio yn gwbl unigryw ac arloesol yn hanes darlledu Prydain. Roedd S4C yn ei hanfod yn y blynyddoedd cynnar hynny yn bartneriaeth rhwng sawl sefydliad darlledu, partneriaeth a adlewyrchwyd yng nghyfansoddiad yr Awdurdod [sleid] a partneriaethau a oedd yn allweddol er mwyn sicrhau cydweithrediad, cefnogaeth ac ewyllys da gan y partneriaid i'r fenter yn hytrach na chystadleuaeth amlwg a thynnu'n groes. Ond doedd cyfansoddiad yr Awdurdod na phresenoldeb yr aelodau hynny yn ynysu'r sianel na'r Awdurdod rhag trafodaethau anodd gyda'r darparwyr.

Mae trafodaethau hir-wyntog â blin a fu rhwng S4C a HTV wrth iddynt geisio dod i gyntundeb ynglŷn â'r hyn a olygid yn y ddeddf Ddarlledu pan y nodwyd y dylai HTV werthu rhaglenni i'r sianel newydd ar delerau masnachol, yn aros yn y cof fel cyfnod anodd yn hanes cynnar y sianel. Nid yw'n syndod mewn gwrionedd bod y

trafodaethau cytundebol hynny wedi rhygnu ymlaen am fisoedd wrth i chi ystyried bod y cytundeb yr oedd HTV a S4C yn ceisio ei lunio yn gwbl unigryw na welwyd ei debyg o'r blaen yn hanes darlledu ym Mhrydain yn ei gymhlethdod ac gan ei fod yn ceisio gofalu am ofynion ariannol darlledwr masnachol ond hefyd yn ceisio sicrhau'r ddel orau i'r darlledwr newydd ar bris y cynnwys. Yn llai hysbys yr oedd y trafodaethau rhwng y BBC a S4C wrth i'r ddwy ochr drafod yr amgylchiadau lle byddai rhaglenni'r darlledwr cyhoeddus yn ymddangos ar sianel lle na fyddai ganddynt reolaeth dros eu hamserlennu. Bu'n rhaid brwydro i sicrhau cydsynio ar faterion pigog megis rheolaeth olygyddol, cadwyn reoli a materion atebolrwydd. Ond y maen tramgwydd mwyaf oedd y anghydnawsedd rhwng Siarter y BBC a fynnai mai Llywodraethwyr y BBC a oedd gyfrifol am bolisi a chynnwys holl raglenni'r Gorfforaeth a'u cyfrifoldeb o dan y ddeddf ddarlledu newydd i ddarparu rhaglenni i Awdurdod Sianel 4 Cymru a oedd yn ymateb i angehenion y bedwaredd sianel Gymraeg. Rhagwelid y gallai anghenion rhesymol S4C dynnu'n groes i benderfyniad polisi'r Gorfforaeth ar faterion megis cyllideb er enghraifft. Ni lwyddwyd ychwaith i ddod i benderfyniad ynglyn â sut y gellid goresgyn y trafferthion hyn – gan i'r Datganiad o Fwriadau a ddanfonwyd gan y BBC at S4C nodi mai ewyllys da ar ran personel y ddwy ochr fyddai'n ateb i unrhyw anghydfod. Nid oedd hon yn strategaeth hirben iawn, ac efallai ei bod yn dangos ôl negyddol cyfnod prawf – gyda ystyriaethau tymor byr yn hytrach na ffurfio patrymau cadarn hir dymor *(future-proof* yn y Saesneg) yn treiddio i benderfyniadau'r darlledwyr.

Ond y berthynas a sbardunodd syniadau mwyaf aroloesol ac arbrofol S4C oedd y berthynas a saernïwyd gyda'r to newydd o gynhyrchwyr annibynnol a ffurfiwyd yng Nghymru gyda geni'r sianel Gymraeg. Yn groes i Channel 4, nid oedd sefydlu

platfform ar gyfer rhaglenni cynhyrchwyr annibynnol yn un o'r prif amcanion ar gyfer sefydlu'r sianel, oherwydd yr holl gyfrifoldebau eraill a osodwyd arni. Er hynny, nid oedd y Ddeddf Ddarlledu yn atal S4C rhag gweithio gyda chynhyrchwyr eraill y tu hwnt i HTV a'r BBC. Gellir deall pam nad oedd pwyslais mawr i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol yng Nghymru, a hynny gan nad oedd yna nifer helaeth ohonynt yn bodoli yn y cyfnod. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ym mis Chwefror 1981, amcangyfrifwyd gan y Gymdeithas Darlledwyr Cymraeg mai dim ond oddeutu pymtheg o gynhyrchwyr annibynnol a allai weithio yn yr iaith. Ond nid pymtheg cwmni y cyfeirir atynt yma, ond pymtheg unigolyn a fedrai weithio yn y Gymraeg – mewn geiriau eraill clwstwr o weithwyr llawrydd, a oedd yn gweithio yn Llundain fel cyfarwyddwyr llawrydd , neu unigolion megis Wil Aaron ac Alan Clayton a weithiau fel cyfarwyddwyr annibynnol i'r BBC a HTV yng Nghymru, a rhai dynion busnes a oedd a diddordeb mentro i fyd teledu pe bai'r amgylchiadau yn ffafriol. Er nad oedd yna nifer helaeth ohonynt, roedd brwdfrydedd, egni ac uchelgais amlwg i'w gweithgareddau wrth iddynt fynd ati i lobio'r Awdurdod newydd am gyfran o arian rhaglenni'r sianel, ac wrth iddynt chwilio am arian a buddsoddiad er mwyn sefydlu Uned Ddarlledu Allanol a fyddai'n eu galluogi i gystadlu gyda'r darlledwyr. Ystyrid o'r dechrau y byddai'r BBC a HTV yn darlledu 10 awr yr un ac mai 2 awr yn unig yr wythnos fyddai ar gael i'r cynhrychwyr annibynnol. Ond roedd y rhestr gynyddol o gynhyrchwyr annibynnol, gydag Euryn Ogwen Williams, yn lais amlwg yn eu plith, yn awyddus i beidio a chael sborion y ddarpariaeth, wrth iddynt fynd ati i lobio a pherswadio'r cadeirydd newydd Syr Goronwy Daniel, y gallai'r cynhyrchwyr annibynnol ddarparu tair awr yr wythnos i'r sianel – a fyddai'n cynnwys awr a hanner o ddrama yr wythnos, awr o adloniant ysgafn a hanner awr o'r hyn a elwid ganddynt

yn rhaglen ‘werin’. Roedd y cynhyrchwyr annibynnol yn amlwg yn awyddus i sicrhau rhannau mwyaf deniadol o’r ddarpariaeth.

Wrth i fisoedd paratoi y sianel fynd rhagddynt, fe ddaeth yn amlwg y byddai angen i’r sianel fynd ati i ffurfio perthynas lawnach ac agosach gyda’r sector gynhyrchu annibynnol nag y rhagwelwyd ar y dechrau. Llwyddodd trafferthion a natur hirhoedlog y trafodaethau gyda HTV, yr angen i bentyrru rhaglenni ar gyfer lansiad y sianel yn Nhachwedd 1982 a phenodiad Euryn Ogwen Williams fel Golygydd Rhaglenni cyntaf y sianel i sicrhau rol llawer mwy blaenllaw i’r sector gynhyrchu annibynnol. Tyfodd a datblygodd y nifer o gwmniau annibynnol, yn enwedig wrth i aelodau o staff y sianel annog rhai unigolion a weithiai i’r darlledwyr eraill adael eu swyddi a sefydlu cwmniau eu hunain, o’r pymtheg anelwig ym 1981 i bedwardeg a chwech erbyn i’r sianel gwblhau ei blwyddyn gyntaf o ddarlledu yn Nhachwedd 1983. [sleid] A dyma restr o’r 46 cwmni – rhai enwau cyfarwydd ac eraill sydd, yn anffodus, wedi hen bylu o’r cof.

Ceid nifer o sgîl effeithiau dylanwadol a sbardunwyd gan ddatblygiad y berthynas rhwng S4C a’r cynhyrchwyr annibynnol, ac un o’r amlycaf ohonynt oedd i nifer o’r cynhyrchwyr ymsefydlu mewn ardaloedd lle yr oedd diweithdra yn uchel, megis ardaloedd o ogledd orllewin Cymru a Bae Caerdydd, gan gyfrannu at economïau’r ardaloedd bregus hyn. Darparwyd gwaith yn sgil hynny mewn ardaloedd Cymreig, ac, er na welwyd atal llif yr allfudo o ardaloedd gwledig i ddinasoedd de Cymru a Lloegr, fe ddangoswyd bod modd sefydlu busnesau llwyddiannus, cynhyrchu rhaglenni teledu deniadol a difyr ac y ceid cyfleoedd cyffrous i weithio mewn dwydiant newydd atyniadol a hynny yng nghefn gwlad Cymru.

Cyflwynwyd bwrlwm newydd i'r diwydiant a'r arlwy nid yn unig oherwydd y gwaed newydd ond oherwydd yr amrywiaeth ehangach o syniadau a gynhyrchid trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn sicr yr oedd dyfodiad y cynhyrchwyr annibynnol yn sbardun i'r datblygiad hwnnw, gan eu bod yn dyfeisio a chynnig syniadau a oedd yn wahanol i'r rhai a gynhyrchid gan y BBC ac HTV. Y gwahaniaeth pennaf oedd nad oedd eu syniadau yn cael eu llyffetheirio gan gyfyngiadau stiwdio, yr oedd y cynhyrchwyr annibynnol felly yn mynd ati i leoli eu rhaglenni mewn ardaloedd ledled Cymru. Yr oedd hyn yn sicrhau bod y cynhyrchwyr annibynnol, nid yn unig yn agosach at eu cynulleidfa a'r gymuned Gymreig o ran lleoliadau eu hamryfal swyddfeydd, ond eu bod hefyd yn darlunio y cymunedau hynny, yn gymeriadau ac yn lleoliadau yn eu cynyrchiadau. Er nad oedd darpariaeth S4C, oherwydd ei ethos boblogaidd, yn arloesol yn yr un ystyr a yr oedd rhaglenni Channel 4, roedd y syniadau a oedd bellach yn cael eu cynhyrchu ar gyfer y sgrin yn arloesol i'r ddarpariaeth Gymraeg. Rhaglenni megis: Minafon, Yng Nghwmni, Almanac, Joni Jones, Wil Cwac Cwac ac yn y blaen.

Ynghyd â rhoi llais a delwedd i nifer o gymunedau, yr oedd gweithgareddau'r cynhyrchwyr annibynnol yn cyfrannu yn economaidd at yr ardaloedd hynny wrth i'r cynhyrchwyr gyflogi staff a defnyddio nifer o wasanaethau lleol atodol. Yr oedd sgîl effeithiau economaidd nid ansylweddol felly i'r newydd-ddyfodiaid i ddarlledu Cymraeg, a bu'r buddiannau ychwanegol hyn yn allweddol wrth ennill enw da i'r sianel gan fod S4C nid yn unig yn darparu arlwy estynedig trwy gyfrwng y Gymraeg, ond hefyd yn buddsoddi yn economaidd mewn ardaloedd ac mewn cymunedau. Yr oedd y sgîl effeithiau economaidd hyn yn strategaeth fwriadol gan Awdurdod S4C er

mwyn sicrhau bod y sianel a'i gweithgareddau wedi eu gweu i mewn i fuddiannau y tu hwnt i'r byd darlledu. Rhwymwyd gweithgareddau'r sianel wrth fuddiannau eraill i'r fath raddau nes gwarantu y byddai'n gymaint â hynny'n anoddach ei diddymu, heb effeithio'n andwyol ar nifer o sectorau a diwydiannau eraill yn y broses. Yr oedd hon yn strategaeth gwbl fwriadol ar ran y sianel ac hynod graff , gan ei bod yn cydnabod bod angen sicrhau gwerth ychwanegol i'r sianel er mwyn cyfiawnhau a chadarnhau ei bodolaeth. Yr oeddent wedi casglu bod dibynnu'n llwyr ar ffigurau gwylio yn gynllun anghyfrifol, a hynny gan nad oedd modd ffurfio cymhariaeth deg ag ystadegau sianeli eraill, ac y gellid eu defnyddio gan wrthwynebwyr y sianel er mwyn cyflwyno beirniadaeth hallt ar gost y gwasanaeth. Ffaith sy'n gwbl amlwg i ni heddiw wedi'r erthyglau maleisus yn y wasg y llynedd.

Ymwybyddiaeth a phrofiad Syr Goronwy Daniel ym maes ystadegau ac economeg hefyd fu'n gyfrifol am yr agwedd hon ar waith atodol y sianel, gan mai ei weledigaeth graff ef a esgorodd ar strategaeth a wreiddiodd y sianel yn ddwfn yn ffyniant economaidd Cymru. Er mai Syr Goronwy Daniel oedd ysgogwr y strategaeth hon, yr oedd brwdfrydedd aelodau o staff y sianel i weithredu'r cynlluniau, a Chris Grace yn benodol trwy sefydlu cytundebau creu nwyddau yn seiliedig ar raglenni S4C megis *Superted* a *Wil Cwac Cwac*, yn allweddol i sicrhau llwyddiant aruthrol y strategaeth yn ystod y cyfnod prawf. Aethpwyd ati i greu ymateb, creu sgîl effeithiau, creu enw da a gwneud y sianel yn berthnasol i'r Gymru fodern ac i Gymru gyfan ac nid y garfan Gymreig y darperid rhaglenni ar ei cyfer yn unig. Yr oedd holl weithgareddau atodol y sianel trwy'r cwmni Mentrau, yn cyfrannu tuag at yr ethos hwnnw o wneud y sianel yn anhepgor i economi Cymru ac yn rhan hanfodol o'r ddelwedd o Gymru dramor. Yr oedd strategaeth o'r fath yn rhwymo ffyniant sectorau ac ardaloedd

penodol i lwyddiant y sianel gan ei gwneud hi'n anoddach os nad yn amhosibl ei diddymu heb gael effaith pellgyrhaeddol ar economi ehangach y wlad. Mae hon yn parhau yn strategaeth a arddelir gan y sianel ac y mae bellach yn comisiynu ymchwil penodol yn y maes hwn er mwyn mesur mewn dull ariannol ac ystadegol effaith economaidd y sianel ar economi Cymru. Ceisia'r adroddiadau hyn ddangos gwerth ychwanegol i'r sianel a'i gweithgareddau y tu hwnt i ddarparu rhaglenni Cymraeg i gynulleidfa leiafrifol. Yn Nhachwedd 2010, rhyddhawyd canlyniadau yr astudiaeth economaidd ddiweddaraf fel arf i amddiffyn y sianel yn ystod ei brwydrau gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth iddi geisio cyfiawnhau'r buddsoddiad a dderbynia o'r pwrs cyhoeddus. Ond bellach, ymddengys nad yw hyn yn ddigon. Mae angen i'r Sianel ddod o hyd i sgil-effeithiau eraill er mwyn gwneud y Sianel yn berthnasol i'r Gymru fodern yn 2011. Nid yw'r ateb a fu mor llwyddiannus i'r Sianel ym 1985 yr un mor debygol o lwyddo yn 2011. A dyna ymddengys yw'n tasg heddiw – sef ystyried sut y gellid gwneud S4C yn berthnasol ac yn apelgar ar gyfer y Gymru gyfoes.

Roedd y berthynas a sefydlwyd rhwng S4C a'r cynhyrchwyr annibynnol yn ystod y cyfnod prawf yn gwbl unigryw felly, wrth i'r sianel a'i swyddogion ddarparu cefnogaeth, annogaeth a magwraeth i'r cynhyrchwyr annibynol er mwyn sicrhau eu bod yn darparu eu rhaglenni ar amser ac oddi mewn i'r gyllideb. Ac fe dyfodd teyrngarwch rhyfeddol rhwng y sianel a'r cynhyrchwyr – hyd yn oed mewn cyfnodau o gynni ariannol bu'r sianle yn brwydro ochr y cynhyrchwyr annibynnol gan geisio sicrhau bod yr amrywiaeth a oedd yn elfen mor arwyddocaol o'u sbarc fel y dengys y dyfyniad hwn:

“Camgymeriad fyddai trefn haearnaidd felly, gallai arwain at bylu’r fflam pe baem yn sefydlogi gormod ar y dref, ac yn sicr gallasai fod perygl mawr o lithro i rigol esmwyth. Cryfder y sector annibynnol yw’r hyblygrwydd.”

Mae’n bwysig peidio rhoi’r argraff y bu S4C yn gwbl arloesol ym mhob agwedd o’i gwaith yn ystod y cyfnod prawf. Cyfle coll yn hanes y sianel yn ystod y cyfnod hwnnw, oedd ei methiant i sicrhau cysylltiad agosach gyda’i chynulleidfa, gan iddi ddewis dibynnu am gyngor ar raglenni gan bwyllgorau ymgynghorol y BBC a’r ADA yn hytrach na sefydlu ei system ymgynghori arloesol ei hun. Nid oherwydd diffyg ysbrydoliaeth na diffyg syniadau ynglŷn â sut i fynd ati i gasglu safbwyntiau’r gynulleidfa y bu hynny, gan i’r Awdurdod ddyfeisio cynllun o’r fath yn ystod 1982 a fyddai wedi ffurfio pwyllgorau gwylwyr rhanbarthol i drafod a darparu adborth ar raglenni a pholisiau’r sianel. Yn hytrach, diffyg amser yn ystod y deunaw mis o baratoi fu’n gyfrifol am ddiddymu’r cynllun hwnnw, a diffyg o ran gosod blaenoriaethau wrth i’r sianel droi at yr ateb hawdd a chymharol ddiffwdan o gael adborth ar ei chynnyrch. Gellid gosod y bai yn rhannol am hyn ar yr oedi a fu cyn sefydlu Awdurdod S4C, y ffaith i’r Ddeddf Ddarlledu gynnig dihangfa i’r Awdurdod a hefyd i’r oedi a’r petruso a gafwyd gan yr Awdurdod a’r swyddogion cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y gyfundrefn fwyaf addas. Ond, dagrau pethau o’r herwydd, yw na lwyddodd y sianel i sicrhau cysylltiad agos a ffyniannus gyda’i chynulleidfa yn y cyfnod cynnar hwn, gan yn hytrach eu cadw lled braich oddi wrthi.

Er y cam gwag hwn, bu’r gweithgareddau a’r elfennau arbrofol, arloesol ac unigryw a ddyfeiswyd ac a ymsefydlwyd gan y sianel yn ei chyfnod prawf yn allweddol i sicrhau mai ffurfioldeb yn unig fu adolygiad y llywodraeth ohoni ym 1985. Mae angen i’r sianel yn 2011 ail-ymweld â’r ysbryd hwnnw a sicrhaodd lwyddiant y sianel

wrth iddi ymsefydlu yn gwbl ddi-ysgog ym mhatrwm darlledu Cymru, a'i gwneud yn gymaint mwy nag arbrawf gydag amserlenni teledu.

Diolch.